# Gwahardd codi prisiau'n unol â chwyddiant

## Cynigion ar gyfer rheolau ac arweiniad newydd

**Ymgynghoriad**

Cyhoeddwyd 12 Rhagfyr 2023
Dyddiad cau ar gyfer ymatebion: 13 Chwefror 2024

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg .......... 3

# 1. Trosolwg

1.1 **Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi cynlluniau Ofcom ar gyfer mesurau newydd i ddiogelu'r prisiau y mae defnyddwyr yn eu talu ym maes telathrebu, gan gynnwys gwaharddiad ar godi prisiau'n unol â chwyddiant mewn ffordd ansicr yn y dyfodol.**

1.2 Pan fydd pobl yn ymrwymo i gontract ffôn, band eang neu deledu-drwy-dalu, dylent fod yn glir ac yn sicr ynghylch yr hyn y bydd yn rhaid iddynt ei dalu drwy gydol ei gyfnod. Nid yw hyn bob amser wedi digwydd, oherwydd bod nifer cynyddol o delerau contract darparwyr yn caniatáu codi prisiau blynyddol yn unol â chwyddiant yn y dyfodol, ynghyd â chanran ychwanegol, fel arfer 3.9%. Ym mis Ebrill 2023, roedd pedwar o bob deg cwsmer band eang a thros hanner y cwsmeriaid symudol ar gontractau sy'n ddarostyngedig i'r telerau hyn. Amcangyfrifwn y gallai'r niferoedd hyn dyfu ymhellach, i tua chwech o bob deg o gwsmeriaid band eang a symudol, wrth i Three a Virgin Media gymhwyso telerau codi prisiau mewn contract yn unol â chwyddiant i fwy o gontractau eu cwsmeriaid yn ystod 2023/24.

1.3 Rydym yn cynnig gwahardd cwmnïau telathrebu rhag darparu ar gyfer codi prisiau'n unol â chwyddiant a chodi prisiau sydd wedi'u nodi mewn termau canrannol mewn contractau. Yn hytrach, lle mae contractau cwmnïau'n darparu mewn unrhyw ffordd ar gyfer codi'r pris yn ystod cyfnod y contract, rhaid iddynt nodi hyn ymlaen llaw *mewn punnoedd a cheiniogau*. Dylai darparwyr nodi hefyd *pryd* y bydd unrhyw newidiadau i brisiau'n digwydd. O dan ein cynigion, bydd cwsmeriaid yn sicr ynghylch cost eu contract cyn iddynt ymrwymo.

1.4 Mae marchnad sy'n gweithredu'n dda'n gorfod cael defnyddwyr gwybodus a hyderus a all nodi'r fargen orau ar gyfer eu hanghenion. Mae ymgysylltu â'r farchnad yn symbylu cystadleuaeth, sy'n annog darparwyr i gynnig bargeinion gwell, ansawdd gwasanaeth uwch a rhwydweithiau cryfach.

1.5 Ein rôl ni yw diogelu defnyddwyr a sicrhau cystadleuaeth deg sy'n cefnogi prisiau fforddiadwy a gwasanaethau ffôn a band eang o ansawdd uchel, tra hefyd yn annog buddsoddiad hirdymor yn y rhwydweithiau y mae'r wlad eu hangen ar gyfer twf, cynhyrchiant ac arloesedd yn y dyfodol.

1.6 Mae buddsoddi diweddar mewn rhwydweithiau ffeibr llawn a 5G wedi arwain at welliannau sylweddol yng nghyflymder a dibynadwyedd y gwasanaethau sy'n cynnal ein cysylltiadau. Mae band eang ffeibr llawn bellach ar gael i dros hanner cartrefi'r DU, o gymharu â phum mlynedd yn ôl, pan mai dim ond 6% oedd â mynediad iddo. Mae band eang gigabit-alluog ar gael i 75% o gartrefi'r DU. Roedd darpariaeth 5G ar gael yn yr awyr agored i 85% o adeiladau ym mis Ebrill 2023, i fyny o 69% ym mis Mai 2022.

1.7 Mae marchnad telathrebu preswyl y DU yn gystadleuol ac mae bargeinion da ar gael i ddefnyddwyr sy'n siopa o gwmpas. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae prisiau gwasanaethau band eang a symudol wedi gostwng mewn termau real, ac mae'r ansawdd wedi gwella. Yn y cyfnod hwnnw, gostyngodd prisiau cyfartalog bwndeli llinell dir a band eang newydd (safonol, cyflym iawn neu gwibgyswllt) mewn termau real: er enghraifft, 13% yn achos bwndeli band eang cyflym iawn. Gostyngodd pris misol cyfartalog gwasanaethau symudol, yn seiliedig ar ddefnydd cyfartalog ac eithrio costau ffôn, 33% mewn termau real, a bu cynnydd o 249% yn y defnydd o ddata symudol.

1.8 Er hynny, yn erbyn cefndir o chwyddiant uchel yn 2023, cododd rhai prisiau mewn termau real, tra y parhaodd rhai eraill i ostwng. Cododd prisiau cyfartalog bwndeli llinell dir a band

eang safonol 10% mewn termau real. Mewn cyferbyniad, gostyngodd y prisiau cyfatebol ar gyfer bwndeli a fu'n cynnwys band eang cyflym iawn a gwibgyswllt 6% a 9% yn y drefn honno mewn termau real. Ni newidiodd pris cyfartalog misol gwasanaethau symudol (yn seiliedig ar ddefnydd cyfartalog ac eithrio costau ffôn) o flwyddyn i flwyddyn.

1.9 Ni all cwsmeriaid ar gytundebau sy'n ddarostyngedig i godi'r pris yn unol â chwyddiant wybod yn bendant faint y bydd y pris y maent wedi'i gontractio i'w dalu'n codi yn ystod cyfnod eu contract. Fodd bynnag, mae codi'r pris yn y fath ffordd yn cael effaith arwyddocaol ar yr hyn y mae cwsmeriaid yn ei dalu am eu gwasanaethau: yng ngwanwyn 2023, gwelodd y rhan fwyaf o gwsmeriaid ar gontractau sy'n ddarostyngedig i godi'r pris yn unol â chwyddiant eu biliau'n codi rhwng 14% a 17%. I deulu sydd â chysylltiad band eang a nifer o danysgrifiadau symudol, gallai'r fath gynnydd gyfateb i gannoedd o bunnoedd y flwyddyn.[1]

1.10 Yn ein barn ni, mae telerau codi'r pris yn unol â chwyddiant yn cymhlethu'r broses o siopa am fargen i ddefnyddwyr. Er mwyn amcangyfrif y pris y byddant efallai'n ei dalu am wasanaethau sy'n ddarostyngedig i'r telerau hyn, mae'n rhaid i bobl: fod yn ymwybodol o'r telerau; deall beth mae cyfraddau chwyddiant amrywiol yn ei olygu; gwybod sut i ddod o hyd i gyfraddau chwyddiant a'u darogan; a chyfrifo'r cynnydd yn y pris yn gywir, trwy ychwanegu canran sefydlog ar ben cyfradd chwyddiant ansicr y dyfodol. Rhaid wedyn iddynt gymharu'r cyfrifiadau hyn ar draws bargeinion gwahanol. Mae'r rhain yn gamau cymhleth a llafurus i'r rhan fwyaf o bobl eu cymryd.

1.11 Rydym wedi gweld bod gan ddefnyddwyr ymwybyddiaeth a dealltwriaeth isel o godi prisiau'n unol â chwyddiant ac na allant amcangyfrif yn ddibynadwy faint y byddant yn ei dalu. Gwelsom hefyd nad yw pobl fel arfer yn ystyried codi'r pris yn unol â chwyddiant yn y dyfodol wrth ddewis contract. Pan fyddant yn gwneud hynny, yn aml nid ydynt yn ei ddeall yn llawn ac yn ei chael hi'n anodd amcangyfrif beth allai'r effaith fod ar eu taliadau.

1.12 Rydym yn pryderu bod telerau codi prisiau'n unol â chwyddiant nid yn unig yn ei gwneud hi'n anodd i bobl ddod o hyd i'r fargen orau, ond eu bod hefyd yn gwneud cystadleuaeth yn llai effeithiol. At hynny, maent yn ei gwneud yn ofynnol i gwsmeriaid ysgwyddo risg a baich ansicrwydd ariannol o chwyddiant, gydag effeithiau gwirioneddol ar eu gallu i reoli costau.

### Beth rydym yn ei gynnig - yn gryno

**Pryd bynnag y mae darparwyr telathrebu neu deledu-drwy-dalu'n codi prisiau o fewn y contract, rhaid iddynt nodi'r rhain yn glir ac ymlaen llaw, mewn punnoedd a cheiniogau, pan fydd cwsmer yn ymrwymo**

Rydym yn cynnig diwygio ein Hamodau Cyffredinol i gyflwyno'r rheol hon. Pan fydd cwmni telathrebu neu deledu-drwy-dalu'n darparu ar gyfer newid ym mhris misol eu gwasanaeth yn ystod cyfnod contract, rhaid iddynt ddatgan y newid hwnnw yn y pris ar y pwynt gwerthu *mewn punnoedd a cheiniogau* (y gofyniad £/c). Dylai darparwyr nodi hefyd *pryd* y bydd unrhyw newidiadau yn y pris misol yn digwydd. Bydd yn ofynnol i ddarparwyr sicrhau bod yr wybodaeth hon yn cael ei dwyn yn amlwg at sylw cwsmeriaid cyn iddynt gael eu rhwymo gan y contract.

[1] Rydym yn amcangyfrif bod codi prisiau'n unol â chwyddiant yng ngwanwyn 2023 wedi cynyddu'r swm y bydd cwsmeriaid ar y contractau hyn yn ei dalu yn 2023/24 £62 ar gyfartaledd i gwsmeriaid sy'n cymryd llinell dir a band eang gan yr un darparwr a rhwng £28 a £69 ar gyfer cwsmeriaid symudol talu'n fisol.

Byddai’r gofyniad £/c yn atal darparwyr rhag cynnwys telerau codi prisiau'n unol â chwyddiant, neu’n seiliedig ar ganrannau, mewn contractau newydd. Byddai darparwyr yn gallu codi eu prisiau yn ystod cyfnod y contract, ond byddai angen i unrhyw gynnydd yn y pris y maent yn eu cynnwys yn y contract gael eu nodi mewn punnoedd a cheiniogau, yn amlwg ac yn dryloyw, ar y pwynt gwerthu.

Rydym yn cynnig y byddai’r gofyniad yn dod i rym bedwar mis ar ôl cyhoeddi ein penderfyniad terfynol yn 2024. Mae’r cyfnod gweithredu hwn yn adlewyrchu ein pryder ynghylch graddfa'r niwed i ddefnyddwyr a allai ddeillio o ddarparwyr yn parhau i rwymo cwsmeriaid i delerau codi prisiau'n unol â chwyddiant, tra’n rhoi digon o amser i ddarparwyr wneud y newidiadau angenrheidiol i’w prosesau a’u cynlluniau busnes.

## Y camau nesaf

1.13 Mae ein cynigion wedi’u nodi yn adran 4, mae'r diwygiadau arfaethedig i’r Amodau Cyffredinol yn atodiad 5 a’r canllawiau drafft yn atodiad 6. Gwahoddwn ymatebion i gwestiynau ein hymgynghoriad erbyn 5pm ddydd Gwener 13 Chwefror 2024. Bwriadwn gyhoeddi ein penderfyniad terfynol yn ystod gwanwyn 2024.